# papur priordy




**I FRO DAWEL YSTUMTUEN**
**AF I GOFIO AM A FU,**
**RHAID MYND YNO, NID EIR DRWYDDO,**
**GWN CAF GROESO YM MHOB TŶ.**

**Tudor Davies**


**Dewiswyd gan Nia Lewis**
***Gweler yr erthygl y tu mewn am ei rheswm dros y dewis***

**Rhifyn 365**
**PAPUR EBRILL 2023**

## Cyfarchiad gan ei Gweinidog

## Y Wawr Newydd

***"Yn gynnar ar y dydd cyntaf o'r wythnos, tra oedd hi'n dal yn dywyll, daeth Mair Magdalen at y bedd a gweld bod y maen wedi ei dynnu oddi ar y bedd" [Ioan 20:1]***



Y Pasg hwn trown unwaith eto at oleuni Iesu Grist, Tywysog Tangnefedd, mewn byd sydd wedi'i amgylchynu gan dywyllwch a gwrthdaro.

I nifer o bobl yn ein byd, mae'r Pasg wedi'i ddathlu ers tro yng nghysgod rhyfel ac ansefydlogrwydd. Eleni eto, mae atgyfodiad ac addewid Crist yn cael eu dathlu yng nghanol realiti creulon tywallt gwaed, dadleoli a brwydro.

Gweddïwn yn arbennig dros y rhai sy'n dioddef yn Wcráin y Pasg hwn, yn ogystal â'r llu o leoedd eraill sy'n wynebu rhyfel a gwrthdaro ar draws y byd. Cyflwynwn i Dduw y mannau eraill ar draws y byd lle mae dioddefaint mor ddwfn yn cael ei weld a'i deimlo gan yr Hwn sy'n adnabod ein poen ar y Groes.

Cofiwn hefyd y rhai sy'n dioddef effeithiau parhaus y pandemig, y sawl sy'n dioddef o effeithiau'r ddaeargryn yn Nhwrci a gogledd Syria, a'n cyfeillion ledled y byd sy'n wynebu bygythiad difrifol yr argyfwng hinsawdd.

Mae ffordd y Groes yn ein galw. Wrth droed y Groes fe ddown ynghyd yn un corff ac yn un teulu, gan wynebu gwahanol sialensau, ond yn un yn ein hangen am iachâd gan Dduw.

Gwelwn yng nghlwyfau dynoliaeth y Crist atgyfodedig sy'n dal i ddwyn creithiau'r croeshoeliad. Ond gwelwn hefyd haelioni a chefnogaeth a lletygarwch ar adegau o angen, a gwelwn y Crist sy'n noddfa ac yn nerth i ni.

DIolchwn am yr arwyddion hyn o obaith. Rydym yn dathlu bywyd yn gorchfygu marwolaeth, ble bynnag ac ym mhwy bynnag yr ydym yn ei weld.

Mae ein galwad y Pasg hwn yr un fath â galwad Crist at ei ddisgyblion: i fod yn bobl sy'n tystio i'r atgyfodiad. Fe'n gelwir i sefyll gyda'r gorthrymedig, y rhai sydd ar y cyrion a'r rhai y mae'r byd wedi anghofio amdanynt. Fe'n gelwir ninnau hefyd i hybu cyfiawnder, ac i wrthod pob anghyfiawnder.

Tra oedd hi'n dal yn dywyll a phawb yn ymddangos yn anobeithiol ar Sul cyntaf y Pasg, roedd Iesu eisoes wedi atgyfodi. Roedd marwolaeth eisoes wedi'i drechu. Ac roedd diwrnod cyntaf creadigaeth newydd Duw eisoes wedi dechrau.



***Fy ngweddi yw*** y bydd pob un ohonom yn clywed y Crist clwyfedig ond atgyfodedig yn ein galw wrth ein henw y Pasg hwn. Bydded i ni ei gyfarch â llawenydd ar wawr newydd Duw.

**Gweddi'r Pasg**

**Gweddïwn**

O Dduw ein Tad, moliannwn di am fore'r trydydd dydd,
ac am fuddugoliaeth dy fab Iesu dros angau a'r bedd.
Boed i orfoledd y Pasg
fod yn ein calonnau a'n bywydau bob amser,
Trwy Iesu Grist



**Amen**

**ADRODDIAD BLYNYDDOL 2022**

Mae'r Adroddiad Blynyddol am y flwyddyn 2022 wedi ymddangos a diolch yn arbennig i Huw Michael, Ysgrifennydd Ariannol a'n cyswlltu â'r Wasg, ac i Adrian Evans, Trysorydd, am eu holl waith.

# DARLLENIADUR

| Mis Ebrill | Darlleniad |
|---|---|
| Wythnos 1<br>Sul y Blodau | Mathew 21: 1-11 |
| Yrv Wythnos Fawr<br>Llun<br>Mawrth<br>Mercher<br>Iau<br>Gwener y Groglith<br>Sadwrn y Pasg | <br>Ioan 12:1-12<br>Ioan 12: 20-26<br>Ioan 13: 21-32<br>Ioan 13: 1-17; 31b-35<br>Ioan 18: 1-19,42<br>Mathew 27:57-66 |
| Wythnos 2<br>Sul y Pasg | Mathew 28: 1-10 |
| Wythnos 3<br>Sul y Pasg Bach | Ioan 20: 19-31 |
| Wythnos 4 | Luc 24: 13-35 |
| Wythnos 5 | Ioan 10: 1-10 |

**DIOLCH YN FAWR**

***Cydnabyddir yn ddiolchgar gyfraniad***

**PERSON DIENW**

***at gyhoeddi'r Papur y mis hwn***

## PANED A SGWRS



**Bore Mercher - 10.30**
**Gwesty'r Llwyn Iorwg**



# 26 Ebrill 2023

**Cyfle am baned, sgwrs a myfyrdod byr**
***(Bydd rhaid i bob un brynu ei goffi ei hunan )***

**Emlyn Schiavone…**



## Oedfa Sul y Fam 2023

Roedd yn fraint o'r mwyaf i fod yn bresennol yng ngwasaneth Sul y Fam dan arweiniad y Parchedig Beti-Wyn James. Pleser oedd gweld cymaint o deuloedd yn y gynulleidfa gyda nifer o famau yn cymryd rhan.

Lewis, Elsi, Cadi a Meredydd oedd yn gyfrifol am y casgliad. Yn dilyn darlleniad Angharad o 1 Corinthiaid 13, cawsom gyflwyniad byw ar y sgrîn o ddelweddau o gariad i sain cân Robert Arwyn, 'Ffydd, Gobaith, Cariad', cyn cael cyflwyniadau amrywiol yn seiliedig ar wahanol liwiau.

Y brif neges oedd pwysigrwydd mamau'n hybu a diogelu cariad mewn teuloedd, gyda rhai yn gwneud hynny dan amgylchiadau anodd.

Carys gyfeiriodd at y lliw melyn fel arwydd o hapusrwydd, Hannah yn cynnig oren fel arwydd o gynhesrwydd, Jayne yn siarad am lwyd fel arwydd o annibyniaeth, Heledd T yn cyflwyno gwyrdd fel arwydd o feithrin a sefydlogrwydd, Heledd ap G yn awgrymu porffor fel arwydd o fywyd ysbrydol a Lowri'n siarad am las fel arwydd o nerth.



Pwysleisio pwysigrwydd hanfodol mamau at fywyd teuluol wnaeth Llinos J, gan gyfeirio at frown fel arwydd o gyfeillgarwch, yn cynnwys y cyfeillgarwch rhwng mamau'r Priordy. Siaradodd Catrin am wyn fel arwydd o lendid a phurdeb a Non yn cynnig coch fel arwydd o gariad, yn cynnwys cariad diamod ac eithriadol mam at ei phlentyn. Mae hyn yn adlewyrchiad o gariad Iesu a Duw atom ni, fel yn yr hoff adnod '*Duw Cariad Yw*.'

Cyhoeddwyd yr emyn 'Dyro dy gariad i'n clymu' gan Carys Anwen ac fe'n harweiniwyd mewn gweddi gan Mwynwen cyn i'r plant ddod i eistedd yn y blaen.

Fel arfer, roedd Beti-Wyn wrth ei bodd yn difyrru'r nifer fawr o blant oedd yn bresennol. Wrth eu hannerch, datgelodd gynnwys ei bag llaw! Mae pob mam yn cario pob math o drugareddau yn eu bag llaw! Ynddo roedd:

- hances bapur i sychu dagrau. Mae Duw yn sychu'n dagrau ac yn ein cysuro.
- Losin i'w sugno pan fo angen bach o egni. Mae Duw yn ein nerthu ac yn rhoi egni i ni wynebu profiadau amrywiol.
- Brwsh gwallt er mwyn i ni gael edrych ar ein gorau! Mae Duw yn haeddu'n gorau bob amser.
- Drych er mwyn edrych ar ein hunain a gweld eraill o'n hamgylch. Mae'n bwysig cadw llygaid ar ein hunain, ein hymddygiad a'n hymarweddiad, ac mae hi'r un mor bwysig i edrych mas am eraill.
- Tors sy'n gymorth i ddangos y ffordd wrth ddod adref yn y tywyllwch. Daeth Iesu yn oleuni i'r byd er mwyn goleuo'r ffordd i ni.
- Pwrs ag ynddo arian gwerthfawr. Pa mor werthfawr bynnag yw ein pethau, mae pob plentyn yn fwy gwerthfawr yng ngolwg ei rieni, ac yn fwy gwerthfawr fyth yn ngolwg Duw.



Ie, braf oedd bod yn dyst i wasanaeth hyfryd Sul y Fam. Gwych hefyd oedd gweld pob un o'n gwragedd yn derbyn cenhinen Bedr wrth adael y capel. Clo da i fore da.

**CYFUNDEB GORLLEWIN CAERFYRDDIN**

**CWRDD CHWARTER**
**Dydd Iau, 11 Mai 2023 - Capel y Tabernacl, Hendygwyn**
**Y Gynhadledd am 4**

**Cyfarfod yr hwyr am 7**
**Yng nghyfarfod yr hwyr ceir anerchiad Llywydd yr Undeb, sef Y Parchedig Beti-Wyn James**

**Croeso i bawb**

# SUL Y FAM












# SUL Y FAM











## CYNNYRCH TÎM Y PRIORDY YN NHALWRN Y BEIRDD

**Cân: SIOPA (I'w darllen a'i chyflwyno'n gyflym iawn)**



**Lle da yw Caerfyrddin i ddod i siopa,
Achos credwch fi ma' popeth yma.
Morrisons, Aldi, Co-op a Tesco
Bydd digon yn Spar – sdim ishe becso!
Siment a hoelon yn Tywi Wyrcs,
Yn Tywi Garej – Toyotas a Myrcs.
New Look am deits a Next am sicwins
Ond cape a phansis yn Evans a Wilkins.
Ma'r Range ac Argos yn dal 'nagored
Ond Debenhams sy' – wedi cico'r bwced.
John James yn gwerthu gitâr a ffidl -
Ma sosejis neis a sego yn Lidl.
Trysor, Pandora a Clogau o hyd,
'Jing a ling a miwglins' uffernol o ddrud.
HM, BM a siop TK Max,
Yn Greggs gewch rols a sbynjis a chacs.
Yn Holland a Barrett sdim llawer o ffrils,
Cewch botel am ddim os brynwch chi bils.
I Waverly wedyn yn gyson bob dydd,
Lot o fwyd cwningen i'ch cadw chi'n rhydd.
O! Castell Howel, ewch rownd, dim brys,
Cewch hanner mochyn 'da Albert Rees.
Papure yn Cogans a Smiths ar y sgwâr,
Yn Halfords ma beics ac olwynion sbâr.
A llifre 'ny Pentan a Water Stones
A llawer iawn gormod o siope ffons.
I'r bobol ifenc – ma na siope lysh
Fel Mooch a Mossies a Coco Lush.
A lawr ym Mhensarn – llond lle o garpedi,
Yn Mataland llwyth o ddillad babi.
A chi'n gwbod beth? Ma' Anti Bess
Yn hala orie yn M & S.
Ma cinio i ddau ar y silff yn Marks
A digon o sgidie drws nesa yn Clarks.
A wedi 'ddi flino i Blakemans mae'n mynd,
Na sbarcen yw Moira – i bawb ma hi'n ffrind.
A se chi'n siopa Nghaerfyrddin nes bo chi yn gant,
Ma' popeth i ga'l 'ma - Felly, clatshwch bant!**

**Peter Hughes Griffiths**

**Pennill Ymson**



**Llyfrgellydd**

**Fan yma, rwy'n treulio fy oriau**
**rhwng silffoedd, sy'n furiau o aur,**
**a gwelaf, rhwng cloriau – drysorau'n**
**disgleirio rhwng nodyn pob gair;**
**Fe deimlaf holl ias y gorffennol**
**wrth gydio mewn llyfr ... nes try**
**rhyw ddydd, yr holl eiriau'n ddigidol -**
**Pa iws fydd i rywun fel fi?**

**Beti-Wyn**

**Telyneg**

**Gwres**

**Mae'n fenyw sydd o syrten oed**
**Fe aeth y blynyddoedd heibio,**
**Mae'n ddoeth, yn gall, daeth at ei choed,**
**Does dim o'i le ar heneiddio.**
**Mi fagodd hi brofiad wrth fyw**
**A dysgu gwersi mawr bywyd**
**Ei llaw sy'n gadarn ar y llyw**
**Mae'n rhywun dyfal a diwyd.**
**Ond ambell waith aiff pethau'n drech,**
**Er caru'i hoed a'i anwesu,**
**Mae'n codi stem, mae'n mynd yn sgrech,**
**Ai dim ond hi sy'n cynhesu?**
**Nid newid ond**
***traws*newidiad**
**Sy'n dod ar ganol bywyd gwraig**
**Ac yng ngwres a grym y profiad**
**Caledir ei rhuddin, fel craig.**



**Elinor Wyn**

**Casgliad**



**Pont Trefechan, 1963**

**Daeth, yn Chwefror ein stori, un giwed**
**i'n gaeaf yn gwmni,**
**dod i'r hewl a'i rhwystro hi**
**â'u gwres i eraill groesi.**

**Cywydd**

**Nos da - i Enlli**

**I'n hadfyd daw un byd bach**
**a'i liwiau yn oleuach,**
**hyd y Swnt daw fflyd o sêr**
**ar wib yn nŵr yr aber;**
**ym Mhorth Meudwy, mwy, y mae**
**'na wyll sy'n llawn canhwyllau**
**a nos wedi'i hynysu**
**yn y don o gylch Maen Du,**
**nef o lwch uwch Ogof Las**
**a chynfyd hyd ei chynfas.**

*****
**Ond yna'n bell, bell o'r bae**
**ni welwn yr un golau,**
**rhy ddisglair yw'r esgair hon**
**i wylio aur gorwelion;**
**ni all y lloer a'i holl lwch**
**ein dallu heb dywyllwch.**

**Aled Evans**

**Cwpled – yn cynnwys y gair ffordd**



**Biliau mawr a bolie mwy;**
**A ydyw'n lôn fforddiadwy?**

**Angharad Wyn**

**TALWRN CAERFYRDDIN**

***Nos Fercher 1 Mawrth 2023 yn yr Egin***

## Y PRIORDY



## Y DDAU FEURYN



## DOD I 'NABOD EIN HAELODAU



**Papur Priordy'n sgwrsio â**

**HELEDD AP GWYNFOR**

**PP: Beth am ddweud ychydig i ddechrau, Heledd, am eich swydd bresennol gyda Mentrau Iaith Cymru?**
**HG:** *Cydlynydd Cyfathrebu yw'r teitl, ac fel gydag unrhyw deitl swydd gyda Menter Iaith - mae'n golygu llawer mwy na chynnwys y teitl yn unig! Dw i'n rhan o dîm bach o dair yn trefnu, cynnal ac arwain ar ddigwyddiadau o bob math er budd 22 Menter Iaith ar draws y wlad. Ryn ni ar fin dechrau trefnu Ras yr Iaith fydd yn digwydd ar Fehefin 22ain eleni.*

**PP: Pa mor allweddol, yn eich barn chi, yw'r Mentrau yn y frwydr dros hyrwyddo'n hiaith?**
**HG:** *Allweddol. Mae'r Mentrau yn cynnal miloedd o gyfleoedd i ddefnyddio'r iaith gan ymateb i'r hyn sydd ei angen o fewn eu cymunedau. Pa iws ydy iaith heb ei defnyddio? Mae'r Mentrau yn allwedd i ddarparu cyfleoedd defnydd ynghyd â gwneud gwaith strategol y tu ôl i'r llenni gyda chynghorau sir nad sydd o reidrwydd yn derbyn unrhyw sylw.*

Mentrau Iaith Cymru

**PP: Mae'r swydd hon gyda'r Mentrau yn wahanol iawn i'ch gwaith blaenorol!**
**HG:** *Bues i'n cynnal siop glan môr yn Nhre-saith ar arfordir Ceredigion, ynghyd â rhedeg byncws a llety gwyliau yno ac yn Ninbych-y-pysgod. Fe wnes i hyn am 10 mlynedd cyn cael plentyn ac ystyried na fyddai'r gwaith penwythnos a phob dydd yn ystod gwyliau yn deg iddo.*

**PP: Fe gawsoch eich geni yma yng Nghaerfyrddin ond eich magu mewn sawl man arall!**
**HG:** *Bai dad yw hynny - gweinidog yn symud o fan i fan, ond wedi cadw at dde orllewin Cymru ar y cyfan - ar wahân i'r adeg pan fudon ni i Guyana yn ne America. Fues i i ddwy ysgol gynradd (Tal-y-Bont a Chwm-ann) a phedair ysgol uwchradd yn Llandysul, Gŵyr ac*

*Ystalyfera a hefyd yn Guyana am gyfnod! Dw i hefyd wedi byw fel oedolyn ifanc yn Israel yn gwirfoddoli ar kibbutz ac yn Tsieina ble bues i'n athrawes Saesneg gyda'r VSO. Mae teithio yn fy ngwaed a dw i'n teimlo mod i'n perthyn i gymuned ehangach na'm bro.*

**PP: Ryn ni'n gwybod yn dda, wrth gwrs, am sêl eich teulu dros Heddychiaeth ers blynyddoedd lawer. Ydych chi'n dilyn yr un trywydd?**



**HG:** *Mae heddychiaeth yn rhan o'm magwraeth - un cof cynnar yw mam yn mynd i Gomin Greenham ac aros yno am ddiwrnodau er mwyn protestio yn erbyn taflegrau niwcliar. Dw i'n ystyried heddychiaeth fel y ffordd gyfiawn a chywir a does dim modd o gwbl cyfiawnhau'r gwrthwyneb sydd ond yn arwain at ddinistr a dioddefaint.*


**PP: Mae'ch brawd, Mabon, yn aelod o Senedd Cymru dros Ddwyfor Meirionnydd. Ydy gwleidyddiaeth at eich dant chi hefyd, Heledd?**



**HG:** *Dw i'n ymddiddori mewn gwleidyddiaeth – dw i'n gynghorydd tref Caerfyrddin ar ran y Blaid ac yn mynd i fod yn siryf y dref eleni - ond gwell gen i beidio ag ymdrabaeddu gymaint â rhai aelodau o'm teulu!*

**PP: Rych chi wedi ymgartrefu yn ein tref gyda Rhys, y gŵr, a Meredydd sy'n saith oed. Pa mor bwysig i chi fu sicrhau Ysgol Sul i Meredydd, tybed?**

**HG:** *Dw i newydd ddod yn aelod yn y capel ond wedi bod yn dod â Meredydd i'r Ysgol Sul ers dipyn o amser. Mae sawl rheswm iddo fynychu'r Ysgol Sul sydd yn cynnwys cwmnïaeth ffrindiau; dysgeidiaeth o'r Beibl; hwyl trwy ddysgu; hyder o flaen a chyda cynulleidfa…*



**PP: Mae deryn bach yn dweud eich bod yn hoff iawn o chwarae criced!**

**HG***:* *Dw i'n aelod o dîm criced merched Bronwydd ac yn mwynhau'n fawr iawn! Roedd fy nhad-cu yn arfer chwarae i'w brifysgol, a'm tad yng nghyfraith, a dw i'n hoff iawn o fowlio a chadw wiced! Mae'r gymdeithas yn hyfryd iawn - mae'n ffordd dda o ryddhau stêm ar*

*ddiwedd wythnos!*

**PP: Mae cerddoriaeth hefyd yn chwarae rhan bwysig yn eich bywyd.**
**HG***: Dw i wrth fy modd gyda cherddoriaeth o bob math. Mae Rhys yn gerddor - mae'n chwarae gitâr mewn bandiau ac yn bianydd da iawn, a dw i'n aelod o Gôr Seingar yn canu fel alto. Mae Rhys a fi wedi dechrau noson werin yn y dref - criw anffurfiol yn dod at ein gilydd ar drydydd nos Iau pob mis ym mar Cwrw er mwyn chwarae cerddoriaeth werin - lot fawr o hwyl ac agoriad llygad. Mae 'da ni bobl gerddorol iawn yn y dref - nifer ohonyn nhw'n aelodau yma yn y Priordy!*




**PP: Ac un cwestiwn bach i orffen, Heledd - sut byddwch chi'n ymlacio gyda'r teulu?**
**HG:** *Dw i'n hoff iawn o ddarllen ac edrych ar ffilmiau. Dw i'n mwynhau mynd i gerdded - y mynyddoedd gydag afonydd a rhaeadrau yw fy hoff fannau. Mae Meirionnydd yn agos iawn at fy nghalon ac yn ardal hyfryd i gerdded ynddi. Hefyd mae hemo peli criced yn wych i fy helpu i ymlacio!*

**Diolch yn fawr iawn i chi am y sgwrs, Heledd a phen-blwydd hapus iawn i chi ar 24 Ebrill!**



**AR WERTH!**

Dyma'ch cyfle i brynu bach o hanes Y Priordy! Rydym yn gwerthu'r hen fwrdd Cymun. Mae e wedi bod yn segur ers y 1950au gan i'r eglwys gomisiynu un newydd y pryd hwnnw. Mae'r hen fwrdd yn y stordy ar lwyfan y festri. Croeso i chi fynd i'w weld. Mae'n hen ond o wneuthuriad arbennig. Angen bach o bolish a TLC! Rydym yn derbyn cynigion synhwyrol amdano at yr achos. Cysylltwch â Beti-Wyn os oes gennych ddiddordeb.
*Y cyntaf i'r felin….!!*



**Tudalen Blaen..**



**Rheswm Nia Lewis dros ddewis y gerdd**
***I fro dawel Ystumtuen…..***

Bues yn hel meddyliau am sawl wythnos ac yn ceisio dewis geiriau oedd o bwys i mi. Oes, mae gen i hoff emynau a cherddi, ond penderfynais ganolbwyntio yn y diwedd ar fro fy nghyndeidiau.

Cefais fy ngeni a'm magu yn Aberystwyth. Mae mam o Gapel Seion (ardal Ieuan Gwyllt) a fy nhad â'i wreiddiau yn ddwfn ym mhentref Ystumtuen.

A dyma gofio am y gerdd yma. Cerdd gan y diweddar Barchedig Tudor Davies, ffrind a chyfaill annwyl iawn i'r teulu. Mae gan Tudor Davies wyth emyn yng Nghaneuon Ffydd; un o'm ffefrynnau yw rhif 816 - Cofia'r newynog, nefol Dad.

Ble yn hollol mae Ystumtuen? Clywaf chi'n gofyn! Wel, pentref bychan iawn a diarffordd yw Ystumtuen yn llechu yn ucheldir Ceredigion. Wrth yrru o Aberystwyth am Langurig, anelwch am Fwlch Nant yr Arian. Yma rhaid oedi ac edrych i lawr i'r gorllewin; gwelwch bentref Goginan i lawr yn y dyffryn, y bryniau o gylch Aberystwyth a chip ar Fae Ceredigion, ac i'r dwyrain gallwch weld Pumlumon. Fe ddewch yn fuan wedi hyn at arwyddbost i droi am Ystumtuen.

Ar un adeg roedd Ystumtuen yn bentref prysur iawn gyda'r gwaith plwm, ond nid ffermwyr a mwynwyr yn unig a gafwyd yn yr ardal gynt, ond hefyd nifer dda o grefftwyr o bob math. Roedd nifer o seiri crefftus - mae'r capel yn brawf o hynny. Saer crefftus oedd fy nhad-cu, er yn anffodus, ni chefais y cyfle i'w adnabod.



Er i'r ysgol gau ym 1957, parhau ar agor mae'r capel, er mai gwasanaeth achlysurol sydd yno erbyn hyn. Un o nodweddion arbennig Ystumtuen, yn wahanol i rai ardaloedd eraill, yw mai un capel sydd yno a hwnnw'n gapel Wesle.  Cyn sefydlu achos yma ym

1807, eglwys fechan y plwyf yn Ysbyty Cynfyn, ar draws yr afon Rheidol, oedd unig addoldy'r ardal. Daeth y capel yn ganolbwynt nid yn unig i'w bywyd crefyddol ond hefyd i fywyd diwyllianol ac addysgol yr ardal. Clymwyd y teuluoedd yn gymdeithas glos a gweithgar.

Bu 'nhad yn aelod yma drwy ei oes, er iddo fynychu St Paul's, Aberystwyth yn rheolaidd gan mai yma y byddem ni fel teulu'n addoli. Byddem ni fel plant yn cael ein derbyn yno yn ein tro ac mae mam yn dal yn aelod yn St Paul's. (Roedd dad hefyd yn hoffi ymweld â sawl capel arall o Sul i Sul, ta beth bynnag fo'r enwad, os oedd pregethwr gwerth chweil yno!)



Bu Ystumtuen yn lle i ni fel teulu ddianc iddo am bicnic, yn aml ar lan Llyn yr Oerfa; lle i'r enaid gael llonydd (wel, nes i ni'r plant gyrraedd - 5 ohonom!). Ar lan Llyn yr Oerfa, ym Mhant y Ffynnon y magwyd fy nhad a'i frodyr a'i chwiorydd. Sonnir am fy hen ewythr, sef John Hugh Griffiths, a sawl perthynas arall yn y gerdd.



Wrth gwrs, ar ôl y picnic, roedd rhaid mynd i lawr i'r pentref i ymweld ag ambell berthynas a ffrindiau, a chael croeso da ar bob aelwyd. Doedd dim un tro yn gyflawn heb ymweld ag "Anti Bron" yn y siop. Yma byddem yn clywed y gog yn canu hefyd.

Erbyn heddiw, fel sawl cymuned arall, heblaw am un neu ddau o'r cartrefi, pobl ddwad neu ailgartrefi sydd yno. Serch hynny, mae'r gwreiddiau'n dal yn gadarn a dw i'n dal i deimlo ôl y fagwraeth yma arnaf yn aml

**Tudor Davies**

*Fel mae'n digwydd, ganed Tudor Davies ar 2 Ebrill 1923, sef can mlynedd yn ôl i'r mis hwn. Yn frodor o Wyddelwern, ger Corwen, bu'n weinidog gyda'r Eglwys Fethodistaidd yng ngogledd Cymru, ar gylchdaith Arfon, yn y Felinheli a Bangor, cyn symud i wasanaethu eglwysi'r de a'r canolbarth. Bu'n weinidog Sant Paul, Aberystwyth, am bedair blynedd cyn ymddeol. Bu farw 10 Mehefin 2010.*

## CERDD GYFAN TUDOR DAVIES

**Af i gofio am a fu,**
**Rhaid mynd yno, nid eir drwyddo,**
**Gwn caf groeso ym mhob tŷ.**
**Bro fynyddig, capel unig,**
**Clwstwr tai, a siop y sy,**
**Ysgol wag, a thŷ gweinidog:**
**Nid yw'r gw'nidog yn ei dŷ.**

**Melys cwrdd â'r hen gyfeillion,**
**Mwynwyr plwm a seiri maen,**
**Gwiw dyddynwyr a brogarwyr,**
**Gwerin glos ddi-stŵr, ddi-staen;**
**At ei gilydd tynnent beunydd,**
**Gyda'r 'pethe' ôl a blaen,**
**Ar eu gwaith a'u cymeriadau**
**Yr oedd sglein a dwyfol raen.**

**John Huw Griffith, Pant-y-ffynnon,**
**Addfwyn ŵr i'w fro yn gaer,**
**Cain englynwr ac ymgomiwr,**
**Daeth yn ôl 'rôl teithio dae'r.**
**Arthur Jones, Tŷ Gwyn, mor selog,**
**Rhoes ei oes yn gennad daer,**
**Cerddodd foelydd drwy bob tywydd**
**I gyhoeddi Mab y Saer.**

**David Jenkins gymwynasgar,**
**Iddo roedd y Llan yn llyw:**
**Nid oedd unman drwy'r byd cyfan**
**Fel ei wenfro deca'i rhyw.**
**Dyna rai o'r hen ffyddloniaid**
**Wnaeth eu rhan dros ddyn a Duw,**
**Trysor atgof sy'n ysbrydiaeth,**
**Roedd eu ffydd yn ffordd o fyw.**

# HWYL YN YR YSGOL SUL WRTH BARATOI AR GYFER YR WYTHNOS FAWR















# Ifanc@Priordy

Helo bawb. Diolch am eich cwmni yn ystod y mis a diolch arbennig i'r athrawon a'r rhieni am helpu yn yr Ysgol Sul. Digon o luniau mewn man arall yn y papur hwn.

Mae'n **Basg** eto! Fe fydd gwasanaeth gyda ni ar fore Sul Y Pasg gyda chroeso i bawb o bob oed.



**Yn y cyfamser…** Dyma gwis bach i chi!
Atebion ar ddiwedd y papur!

1. Y diwrnod cyn i Iesu gael ei groeshoelio, fe gymerodd fowlen a thywel a dechrau golchi __?___ y disgyblion. ***Dwylo? Traed? Gwallt?***

2. Bu Iesu yn bwyta swper gyda'i ddisgyblion y noson cyn iddo gael ei groeshoelio. Dywedodd bod __?__ yn cynrychioli ei gorff a __?__ yn cynrychioli ei waed. ***Bara a dŵr? Bisgien a llaeth? Bara a gwin?***

3. Beth oedd enw'r bryn lle croeshoeliwyd Iesu? ***Horeb? Calfaria? Nebo?***

4. Atgyfododd Iesu ___ diwrnod ar ôl iddo gael ei groeshoelio. ***Dau ddiwrnod? Wythnos? Tri diwrnod?***

5. Pwy oedd y cyntaf i weld Iesu wedi iddo atgyfodi? ***Y gwragedd? Y milwyr? Y postman?***



## Stori'r Pasg

Yn gynnar iawn ar fore Sul aeth Mair Magdalen at y bedd a gwelodd fod y garreg oedd dros geg y bedd wedi ei symud ac nid oedd corff Iesu yno. Aeth at Simon Pedr a disgybl arall a dywedodd, "Dydy corff Iesu ddim yna." Aeth Simon Pedr yn ôl at y bedd gyda Mair a gwelodd ei fod yn wag. Arhosodd Mair wrth y bedd yn crïo. Gwelodd angel yn eistedd yn y bedd gwag a gofynnodd iddi,"Pam wyt ti'n crïo, wraig annwyl?" Atebodd Mair, "Maen nhw wedi mynd â chorff yr Arglwydd i ffwrdd." Gwelodd Mair rywun yn sefyll wrth ei hymyl a gofynnodd iddi, "Pam wyt ti'n crïo? Am bwy wyt ti'n chwilio?" Doedd Mair ddim yn gwybod mai Iesu oedd y dyn. Yna dywedodd Iesu, "Mair." Sylweddolodd Mair mai Iesu oedd yno. Aeth Mair yn ôl at y disgyblion eraill a dywedodd wrthynt, "Mae Iesu'n fyw! Dw i newydd ei weld wrth y bedd."




## Chwilotair llythyren J

| | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| E | J | J | J | O | N | A | H | S | O | E | A | E | W |
| D | A | A | J | E | R | W | S | A | L | E | M | S | J |
| M | S | C | A | R | H | T | A | E | D | W | J | J | O |
| S | E | O | J | O | S | U | A | F | W | S | B | O | C |
| J | J | B | J | E | B | U | S | I | A | I | D | B | E |
| E | A | D | M | A | R | O | J | W | D | A | S | A | J |
| C | J | I | A | J | S | A | A | O | J | E | J | E | M |
| H | M | O | E | W | I | I | H | M | E | E | S | A | A |
| O | J | E | S | S | E | E | J | M | C | L | M | N | H |
| N | J | C | C | M | O | O | L | U | E | N | L | W | T |
| E | W | B | E | S | S | J | D | S | D | E | A | H | O |
| I | E | R | O | D | J | E | A | S | O | I | L | A | J |
| A | E | J | E | H | O | S | A | F | F | A | T | J | S |
| J | A | E | E | A | M | T | J | F | B | H | J | H | F |

JOB
JOTHAM
JACOB
JEREMEIA
JORAM
JUDITH
JERWSALEM
JECHONEIA
JWDAS
JOEL
JEHOSAFFAT
JOSEIA
JWDEA
JESSE
JERAHMEEL
JONA
JOSUA
JEBUSIAID

Mwynhewch y Pasg.
Hwyl tan y tro nesaf!

*Beti-Wyn*



## YR YSGOL SUL YN GWEITHIO AR Y THEMA 'GWEDDI'



















# CAWL A CHÂN GŴYL DEWI'R PRIORDY

***GAEAFOL*** ac annifyr oedd hi wrth i ni ymlwybro i Glwb y Cwins, Caerfyrddin, Ddydd Mercher 8 Mawrth 2023 ar gyfer dathlu Gŵyl ein Nawddsant - ond buan yr anghofiwyd am y tywydd ar ôl i ni gyrraedd!

Beth well i'ch croesawu na chwmni da, byrddau wedi'u gosod yn ddeniadol a'r Cennin Pedr, cennad gwanwyn, yn ein gwahodd i'r wledd?

A gwledd a gafwyd! Ar ôl cydganu'r gras bwyd '*O Dad, yn deulu dedwydd'* dyma fynd ati i fwynhau cawl blasus, bara menyn a chaws, dewis o bwdin, coffi neu de a phice ar y maen a'r cyfan o ansawdd uchel ac am bris hynod o resymol.

Fe gafodd Beti-Wyn amser o rywle i baratoi cwis ar ein cyfer a hwnnw, yn addas iawn i'r achlysur, yn seiliedig ar Gymru. Yn dawel bach, mae lle i gredu ei bod yn hapus iawn gyda'r ymateb, yn enwedig ein gafael ar emyn-donau – a Gareth Gravell yn datrys dirgelwch *Rwy'n canu fel cana'r aderyn* mor sydyn!!!! Marciau llawn i Beti-Wyn am gwis hynod ddiddorol ac ychydig yn wahanol i'r arfer gyda'r gliniadur ar waith yn ddiwyd!

Pinacl y gweithgareddau oedd anrhydeddu enillydd y limrig!  A dyma'r llinell a aeth â hi!

Un diwrnod yn Llanddewi Brefi
Fe gododd y tir dan draed Dewi,
'O diar', medd e
'bydd sôn rownd y lle -
**twrch daear yw achos y codi**.'

Llongyfarchiadau mawr i'r bardd buddugol Gwynn Bowyer.

Talwyd y diolchiadau yn ddeheuig iawn, yn ôl yr arfer, gan Sulwyn Thomas a gyfeiriodd yn arbennig at Cath a Staff y Cwins a'n Gweinidog am eu holl waith ac i bawb arall a gynigiodd help llaw ym mhob rhyw fodd.

***YR UNIG*** beth anffodus oedd i ni orfod dychwelyd i'r tywydd gaeafol ac annifyr ar ôl y fath gynhesrwydd!

# CINIO GŴYL DEWI













**Rhian Evans….**



**Sergei Rachmaninoff**
**1873-1943**

***RACHMANINOFF*** oedd un o bianyddion gorau'r ugeinfed ganrif ac ar 1af o Ebrill, byddwn yn cofio'i eni gant a hanner o flynyddoedd yn ôl. Roedd yn hannu o deulu aristocrataidd o Ogledd Orllewin Rwsia. Roedd ei rieni'n bianyddion medrus a phan welsant fod gan eu mab bedair oed ddawn gerddorol arbennig,



trefnwyd iddo gael gwersi piano yn St. Petersburg ac yn ddiweddarach wersi piano a chyfansoddi ym Moscow, lle graddiodd yn 1892. Y cyfansoddwyr a gafodd ddylanwad mawr ar weithiau Rachmaninoff oedd Tchaikovsky a Rimsky-Korsakov. Tra'r oedd yn fyfyriwr, cyfansoddodd weithiau a ddaeth yn hynod boblogaidd, ar sail eu melodïau hyfryd a rhamantaidd. Doedd ei ddarnau i'r piano ddim yn hawdd iawn i'w chwarae gan fod gan Rachmaninoff ddwylo enfawr a medrai chwarae cordiau a oedd yn cwmpasu hyd at dri nodyn ar ddeg ar un llaw. Llwyddodd i gyfansoddi nifer o weithiau amrywiol ar ddechrau'r nawdegau a'r adeg honno dechreuodd gyfansoddi ei symffoni gyntaf ond derbyniad llugoer a gafodd hi ac o ganlyniad i hynny ac ar ôl clywed am farwolaeth ei eilun, Tchaikovsky, syrthiodd Rachmaninoff i ddigalondid mawr a'i rwystrai rhag mynd ati i gyfansoddi. Ond ymhen amser, wedi derbyn therapi a dyweddïo â'i gariad, Natalie, cododd ei galon a chwblhaodd ei ail consierto i'r piano yn 1901. Enillodd y Gwaith hwn boblogrwydd mawr iddo ac fe'i perfformiwyd lawer gwaith a Rachmaninoff ei hun wrth y piano. Dyma'r gerddoriaeth a ddefnyddiwyd yn y ffilm 'Brief Encounter'.

Ystyrid bod ei weithiau'n rhan o'r traddodiad rhamantaidd, er y credid i'r traddodiad hwnnw ddod i ben tua 1910. Nid oedd y tâl a gâi am ei gyfansoddiadau yn ddigon i'w gynnal ef a'i deulu ifanc, felly derbyniodd swyddi dysgu ac am gyfnod bu'n arwain operâu yn Theatr y Bolshoi.

Lledodd poblogrwydd Rachmaninoff, a derbyniodd wahoddiadau i roi datganiadau mewn nifer o wledydd gan gynnwys Yr Almaen, Yr Eidal ac America.  Ar ddechrau'r ugeinfed ganrif, fe symudodd ef a'i deulu i fyw i Dresden a hefyd i'r Eidal lle y cafodd fwy o lonydd ac ysbrydoliaeth i gyfansoddi.

Byddai mam-gu Rachmaninoff yn mynd ag ef i'r Eglwys Uniongred Rwsaidd pan oedd yn ifanc ac fe gafodd alawon, clychau a siantiau'r eglwys ddylanwad mawr ar ei weithiau. Mae'r dylanwad hwnnw i'w weld yn un o'i gyfansoddiadau pwysicaf sef y 'Vespers' - gosodiad o'r gwasanaeth litwrgaidd, sydd yn Wylnos-gydol-nos, a berfformiwyd am y tro cyntaf yn 1915.  Dyma'r Gwaith crefyddol olaf a gyfansoddwyd cyn y Chwyldro Rwsaidd (1917), pan waharddwyd unrhyw berfformiad o'r Gwaith. Oherwydd y gyfundrefn boliticaidd yn Rwsia, ni fedrai Rachmaninoff a'i deulu fyw o dan y fath ormes, felly, oherwydd iddo gael gwahoddiad i roi cyfres o ddatganiadau yn Sweden, llwyddodd y teulu i ddianc trwy'r Ffindir ac yna i Sweden, ac ar ôl cyfnod yn Copenhagen, gyda chymorth arian Rwsiad caredig, cludwyd y teulu ar long o Oslo i America lle'r ymgartrefodd y teulu yn Efrog Newydd.

Yn 1918, penderfynodd yr awdurdodau nad oedd gweithiau Rachmaninoff i gael eu chwarae yn yr Undeb Sofietaidd gan beri digalondid mawr iddo a hiraeth mawr am ei famwlad.  Mygwyd ei ddawn greadigol ac ychydig iawn o gerddoriaeth a gyfansoddwyd ganddo yn America.  Un Gwaith a ddaeth yn boblogaidd iawn oedd ei 'Rhapsodi ar thema gan Paganini' a gyfansoddwyd yn y Swisdir yn 1934.

Yn Efrog Newydd, llwyddodd i gynnal ei deulu trwy roi datganiadau ar y piano ac arwain cerddorfeydd a chorau.  Gan fod galw mawr am ei berfformiadau, llwyddodd i ymgyfoethogi a mwynhau bywyd mwy bras o lawer nag a gafodd yn Rwsia.  Teithiodd yn helaeth nid yn unig yn America ond hefyd yn Ewrob. Yn 1938, gwahoddodd Sir Henry Wood ef i roi cyngerdd llawn yn y Proms yn yr Albert Hall yn Llundain. Oherwydd ei brysurdeb, dim ond chwe darn o gerddoriaeth a gyfansoddodd rhwng 1918 a 1943.

Gan fod melanoma arno a'i iechyd yn dirywio, symudodd y teulu i Beverley Hills.  Ac er ei boen a'i wendid mawr, daliodd ati i roi cyngherddau hyd at ryw fis cyn ei farw ar 28fed o Fawrth 1943,

pedwar niwrnod cyn ei ben-blwydd yn saith deg oed.



Cynhaliwyd ei angladd mewn Eglwys Uniongred Rwsaidd ac yn ôl ei ddymuniad canwyd Rhan Pump o'r 'Vespers' sef y 'Nunc Dimittis'. Gwaith yr oedd ef yn arbennig o hoff ohono. Claddwyd ei weddillion mewn mynwent yn Valhalla, Efrog Newydd.

***ERBYN HYN,*** mae Rwsia yn cydnabod bod Rachmaninoff yn un o'u cerddorion mwyaf ac mae ei weithiau'n boblogaidd ledled y byd.

**Ifanc@Priordy**
**Atebion y Cwis**
**1.Traed 2. Bara a Gwin 3. Calfaria 4.Tri niwrnod 5.Y Gwragedd**

**Taith Gerdded Calan Mai**



**Foel Drygarn, Caer Meini a'r Ardal**
***dan arweiniad***
**Eurfyl Lewis**

**Bore Llun, 1 Mai 2023**



**Cwrdd y tu allan i Ysgol Bro Preseli, Crymych. SA41 3QH**
**am 10.30 y bore**

***Gwisgwch yn addas***
***Angen esgidiau cerdded arnoch***
***Dewch â phecyn bwyd a digon o ddiod. Croeso i bawb***
***(Mae'r daith yn eitha serth)***

**Beth am droi at**
**Wefan yr Undeb?**
**www.annibynwyr.org**

♫  ♫

**CWIS Y SALMAU**

**Pa mor dda ydych chi'n 'nabod y salmau? Yn hytrach, pa mor dda ydych chi'n 'nabod y salmau yn fersiwn beibl.net?!!!!**

**Llanwch y Bylchau! Rhowch gynnig arni! Ceisiwch ddyfalu! Pob lwc!!**

## SALM 1

**Mae'r un sy'n gwrthod gwrando ar gyngor pobl ---- wedi ei fendithio'n fawr;**
**yr un sydd ddim yn cadw cwmni ----------,**
**nac yn eistedd gyda'r rhai sy'n gwneud dim byd ond dilorni pobl eraill;**

**yr un sydd wrth ei fodd**
**yn gwneud beth mae'r ------- eisiau,**
**ac yn ------- ar y pethau mae'n eu dysgu ddydd a nos.**

**Bydd fel ------ wedi ei phlannu wrth ffrydiau o ddŵr, yn dwyn ffrwyth yn ei thymor, a'i dail byth yn -----. Beth bynnag mae'n ei wneud, bydd yn llwyddo.**

**Ond fydd hi ddim felly ar y rhai ----! Byddan nhw fel -- yn cael eu chwythu i ffwrdd gan y gwynt.**

**Fydd y rhai drwg ddim yn gallu gwrthsefyll y farn. Fydd pechaduriaid ddim yn cael sefyll gyda'r dyrfa o rai -------**

**Mae'r ARGLWYDD yn gofalu am y rhai sy'n ei ddilyn, ond bydd y rhai drwg yn cael eu ----**

**Atebion ar Dudalen 39**

## GWASANAETH DYDD GWEDDI'R BYD
## YN EGLWYS LLANGYNNWR
***Dydd Gwener 3 Mawrth 2023***

**Bu Ann Thomas, Eurwen Jones a Catrin Heledd Jones ar ran y Priordy yn cymryd rhan yng Ngwasanaeth Cymraeg Cydenwadol Dydd Gweddi'r Byd a gynhaliwyd eleni yn Eglwys Llangynnwr.**




**Paratowyd y gwasanaeth gan Chwiorydd Cristnogol Taiwan ar y thema '*Clywais am eich Ffydd'***

| CYRDDAU PREGETHU | |
|---|---|
| **CANA** | |
| **Nos Fercher**<br>**10 Mai 2023 am 7**<br>***Swper i ddilyn***<br>**Pregethwr Gwadd**<br>**Y Parchedig**<br>**Jill-Hailey Harries** |  |
| **BANCYFELIN** | |
|  | **Nos Iau**<br>**18 Mai 2023 am 7**<br>***Swper i ddilyn***<br>**Pregethwr Gwadd**<br>**Y Bonwr**<br>**Ifan Gruffydd**<br>**Tregaron** |

**AR Y WE: www. priordy.org *(yn cynnwys Papur Priordy)***

**Papur Priordy'n cofio…..**

## ANNA LETITIA WARING
## 1823-1910
## Bardd ac Emynydd o Dras Cymreig



Mae un emyn gan Anna Letitia Waring yng Nghaneuon Ffydd – Rhif 949 dan Emynau Saesneg yn yr Adran ar Gymundeb a Gwasanaethau Arbennig, sef *In Heavenly Love abiding*. Mae'r emyn hwn yn seiliedig ar Salm 23 a chaiff ei ganu'n aml mewn angladdau ar y dôn *Penlan*.

Ganed Anna ym Mhlas-y-felin, Castell-nedd ar 19 Ebrill 1823, sef deucanmlynedd yn ôl i'r mis hwn, i Elijah Waring a'i briod Deborah.

Roedd hi'n perthyn i deulu diddorol iawn. Roedd ei thad Elijah (c 1778 -1857), yn fasnachwr, awdur a chyhoeddwr ac yn frodor o Swydd Hampshire. Tair blynedd wedi iddo ddod i Gymru sefydlodd y cylchgrawn *The Cambrian Visitor* yn Abertawe ym 1913. Nod y cylchgrawn oedd goleuo'r Saeson am hanes Cymru ond ni pharhaodd yn hir.  Fodd bynnag, yn fwy hirhoedlog oedd ei ddiddordeb mewn materion Cymreig.  Roedd yn gyfaill i Iolo Morganwg a chyhoeddodd gofiant 'difyr ond annibynadwy' iddo.  Yn Grynwr, ymunodd yn ddiweddarach â'r Wesleaid. Roedd Deborah, ei briod, yn chwaer i Joseph Tregelles Price (1739-1821), Crynwr a meistr gwaith haearn a wnaeth enw da iddo'i hun fel meistr a dyngarwr.  Fyddai e ddim yn caniatáu i unrhyw beth y gellid ei ddefnyddio mewn rhyfel gael ei gynhyrchu yn ei waith haearn yng Nghwm-nedd. Fe oedd sefydlydd y Gymdeithas Heddwch y bu Henry Richard, yr Apostol Heddwch, yn ysgrifennydd iddi. Brwydrodd hefyd i ddileu caethwasiaeth a chwaraeodd ran amlwg yn yr ymgyrch aflwyddiannus i ryddhau Dic Penderyn.

Daeth Anna i amlygrwydd fel emynydd. Er ei bod wedi'i chodi yn ei dyddiau cynnar ymysg y Crynwyr, roedd sacramentau'r Eglwys Anglicanaidd wedi creu argraff arni ac ymunodd â'r corff hwnnw ym 1842.  Dechreuodd gyfansoddi emynau yn ei harddegau, gan ddilyn ôl-troed ei hewythr Samuel Miller Waring, un arall a adawodd y Crynwyr i ymuno ag Eglwys Loegr. Er mwyn darllen yr Hen Destament yn yr iaith wreiddiol dysgodd Hebraeg. Ymddiddorai mewn gwaith dyngarol,

yn enwedig gyda’r Gymdeithas i Gynorthwyo Carcharorion a Ryddhawyd.

Roedd Anna’n ddibriod a pharhaodd i gyfansoddi emynau hyd ei marwolaeth yn ei chartref yn Clifton, Bryste ar 10 Mai 1910.

Mae emynau adnabyddus Anna yn cynnwys "*Father, I know that all my life", "Go not far from me, O my Strength", "My heart is resting, O my God"* ac *"In heavenly love abiding’*. Un a gyfansoddodd efelychiad ardderchog o’r emyn *In Heavenly Love Abiding’* yw Hywel M Griffiths (1949-2005), brodor o Abertawe a brawd y Dr Rhidian Griffiths, Aberystwyth. Fe’i cyhoeddwyd yn *Cristion Mai/Mehefin 1988.* Mae’n debyg i’r fersiwn Gymraeg gael ei chyfansoddi’n wreiddiol er cof am Marion Jenkins, Tonypandy, mam y ddiweddar Dr Kathryn Jenkins (1961-2009), ysgolhaig a hanesydd emynyddiaeth.

I gofio’n ddiolchgar am Anna Waring a hefyd Hywel M Griffiths, cynhwyswn yr emyn gwreiddiol a’r efelychiad ohono isod. Cyfansoddwyd *Penlan*, y dôn y cenir y geiriau arni, gan David Jenkins (1848-1915), Trecastell, Brycheiniog, a ddaeth yn Athro Cerdd ym Mhrifysgol Cymru, Aberystwyth. Fe’i cyfansoddwyd yn wreiddiol ar gyfer priodas yr aelod seneddol T E Ellis ac Annie Davies ym 1898 yng Nghapel y Tabernacl, Aberystwyth.

| | |
|---|---|
| In heavenly love abiding,<br>no change my heart shall fear;<br>and safe in such confiding,<br>for nothing changes here:<br>the storm may roar without me,<br>my heart may low be laid;<br>but God is round about me,<br>and can I be dismayed?<br><br>Wherever he may guide me,<br>no want shall turn me back;<br>my Shepherd is beside me,<br>and nothing can I lack:<br>his wisdom ever waketh,<br>his sight is never dim;<br>He knows the way he taketh,<br>and I will walk with him. | Ni welaf anghysondeb<br>Yng nghariad nefol Duw;<br>Mae yntau’n ddigyfnewid –<br>A’m gobaith, sicir yw:<br>Er dod iselder ysbryd,<br>Er rhuo’r storom gref;<br>Mae f’Arglwydd i yn f’ymyl<br>A’m hyder ynddo Ef.<br><br>Lle bynnag caf fy arwain,<br>Ni fynnwn fwy pe’i cawn;<br>Fy Arglwydd a’m bugeilia,<br>A’m ffiol sydd yn llawn;<br>Ni huna fy Ngwaredwr,<br>Ni phyla’i lygaid Ef,<br>Yn gyson yn Ei gwmni,<br>Mi rodiaf tua’r nef. |

| Green pastures are before me,<br>which yet I have not seen;<br>bright skies will soon be o'er me,<br>where darkest clouds have been;<br>my hope I cannot measure,<br>my path to life is free;<br>my Saviour has my treasure,<br>and he will walk with me | Fan draw mae mannau gwynion<br>Ni welais eto'n glir;<br>Fe ffy'r cymylau duon –<br>Caf weld yr hyfryd dir;<br>Mae 'ngobaith yn ddifesur,<br>A'm ffordd i'r nef yn rhydd;<br>Mae 'nhrysor gyda'm Ceidwad –<br>Cydymaith imi fydd. |
|---|---|

***Diolch yn fawr iawn i'r Athro E Wyn James a'r Dr Rhidian Griffiths am bob cymorth gyda'r erthygl hon***



***YN DYMUNO CYFAMODI?***
**DENNIS JONES**
**YSGRIFENNYDD Y CYFAMODI**

**Croeso i chi gysylltu ag e!**

## HEN SBECTOLAU

Cyflwynwyd bron i 150 o barau o hen sbectolau i staff Celtic Optician Stryd y Brenin yn dilyn ein hapêl ym mis Mawrth. Diolch yn fawr iawn i bawb ac yn arbennig i Ffion Parsons, Swyddog Eco yr eglwys, am drefnu'r casgliad ac am ddidoli'r cyfan



# PARÊD GŴYL DEWI 2023






## PARÊD GŴYL DEWI CAERFYRDDIN 2023

Cawsom ein hannog i siarad Cymraeg ar bob cyfle a gawn gan Sulwyn a Glenys Thomas yn eu hanerchiadau wedi i'r orymdaith a ddechreuodd ger Eglwys San Pedr ymgasglu yn Sgwâr Nott. Nodwyd ganddynt mor bwysig yw dechrau sgwrs yn Gymraeg beth bynnag yw'r sefyllfa y cawn ein hunain ynddi, boed wrth gyfarch ein gilydd neu mewn siop.

Cafodd Sulwyn a Glenys eu cyflwyno i'r dorf luosog gan Peter Hughes Griffiths a gyfeiriodd at eu gwaith gwirfoddol nodedig dros ein hiaith a'n diwylliant a'n crefydd a sawl elusen dros y blynyddoedd, yn lleol a chenedlaethol, gan ddweud eu bod yn llwyr haeddiannu'r fraint o gael arwain yr orymdaith eleni.

Cyfeiriodd y ddau yn eu hanerchiadau at y newid agwedd a fu at ein hiaith a'i bod yn anghenrheidiol i ni wynebu'r dyfodol yn obeithiol. Clywsom hefyd mor bwysig yw dilyn cyfarwyddyd ein Nawddsant a chyflawni'r pethau bychain. Hyfryd yn y cyswllt hwn oedd clywed am un o gymdogion Glenys a Sulwyn, sef Stuart Jones sydd gyda'i fag glas a'i ffon yn codi ysbwriel o gwmpas y gymdogaeth yn rheolaidd. Fel y dywedwyd ganddynt mae'n siŵr bod sawl peth bach y gallwn ninnau ei wneud, yn ieithyddol ac fel arall, er lles bywyd ein cenedl.

Ymhlith yr artistiaid a gymerodd ran oedd Côr Seingar dan arweiniad Nikki Roderick. A da pedd gweld baneri capeli'r Ofalaeth, y Priordy, Cana a Bancyfelin, ymhlith llu o rai eraill yn cyhwfan yn y Parêd.

**CYMANFA GANU UNDEBOL CAERFYRDDIN A'R CYLCH**
**NOS SUL, 24 MEDI 2023 am 5**
**CAPEL PENYGRAIG, CROESYCEILIOG**

**Arweinydd**
**Meinir Richards Llanddarog**

**Rihyrsals yng Nghapel Penygraig dan ofal Helen Gibbon**
**Nos Sul, 16 Gorffennaf am 5 a Nos Sul, 10 Medi am 5**

***Bydd yr emynau o Raglen Cymanfaoedd Canu 2022-2023. Pris Rhaglen yw £2 (Hen Nodiant / Sol-Ffa). Os ydych yn dymuno derbyn rhaglen a wnewch chi roi gwybod i Huw Michael mor fuan â phosibl, os gwelwch yn dda, gan fod angen archebu cyflenwad ar gyfer ein capel erbyn 16 Ebrill 2023.***

## CYFRES YR EGLWYSI ANGHYFFREDIN

### Edrychwn yn bennaf ar yr adeiladau

## EGLWYS POTOSI, VENEZUELA A FODDWYD





Mae'n swnio'n rhyfedd ond mae eglwysi i'w cael sydd dan ddŵr yn llwyr neu'n rhannol dan ddŵr er na chawsant eu hadeiladu felly. Yn hytrach, cyfres o ddigwyddiadau fel llifogydd sydd wedi arwain at hyn. A dyna un rheswm pam mae Eglwys Potosi, Venezuela a foddwyd yn dra phoblogaidd.

Cyn 1985, roedd tref fechan o'r enw Potosi gyda nifer o adeiladau yn cynnwys eglwys. Ym 1985, boddodd llywodraeth Venezuela'r dref gyfan yn fwriadus er mwyn codi argae pŵer hydro-electrig newydd yn yr ardal.

Arweiniodd hyn at foddi'r eglwys hefyd. Mae lluniau a dynnwyd ar y pryd yn dangos mai dim ond croes yr eglwys oedd i'w gweld tra bo'r gweddill dan ddŵr.

Defnyddiwyd yr ardal hon yn gronfa ddŵr ond ddim am yn hir.

Yn 2010, gwelwyd cwymp yn uchder y dŵr o ganlyniad i sychder dwys yn Venezuela. A dyna pryd yr ailymddangosodd yr eglwys. Roedd hi'n dal i sefyll yn un darn, er bod cryn niwed i'r adeilad.

Mae'n siŵr bod yr hanesyn hwn yn canu cloch i ni yng Nghymru!

## APÊL MIS EBRILL




Oes gennych arian tramor sbâr yn cuddio yn y tŷ?! Mae'n anodd cyfnewid arian tramor mân ond dyma'ch cyfle i'w ddefnyddio! Byddwn yn casglu unrhyw arian tramor sbâr sydd gennych yn y tŷ! Byddwn yn ei gyflwyno i Oxfam a fydd yn medru cyfnewid yr arian ar gyfer yr elusen.

Bydd llestr yng nghyntedd y capel drwy fis Ebrill ar gyfer derbyn unrhyw arian sbâr

| **Apêl mis Mai** | **Apêl mis Mehefin** |
|---|---|
| Cymorth Cristnogol | Banc Bwyd Eglwys Crist Caerfyrddin |

***COFIWCH BARHAU I GADW STAMPIAU A CHETRYS***





**CWRDD DIACONIAID AC YMDDIRIEDOLWYR Y PRIORDY**
**Nos Fercher 3 Mai 2023 am 7.30**
**yn y Festri**

**Os oes unrhyw faterion yr hoffech i'r diaconiaid a'r ymddiriedolwyr eu trafod, yna rhowch wybod i'r Ysgrifennydd Gohebol mewn da bryd os gwelwch yn dda**

**DIOLCH YN FAWR**

Diolch i Beti-Wyn, Jayne Woods, Aled Evans, Betsan James ac Angharad Wyn am y lluniau'r mis hwn.



**YN DYMUNO NODDI PAPUR PRIORDY?**
**Cyswllt**
**PHILIP JONES**
**Trysorydd**
**☎ 01267 233437 / info@maxevans.co.uk**



# DYLETSWYDDAU

## GOFALWR / GWRESOGWR Y MIS

| Ebrill | | Mai | |
|---|---|---|---|
| Gofalwr | Gwresogwr | Gofalwr | Gwresogwr |
| Catrin Heledd Jones | Huw Michael | Elis Jones | |

## BLODAU

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Ebrill | 2 | | Mai | 7 | Di-enw |
| | 9 | Ann Thomas | | 14 | |
| | 16 | | | 21 | Mair Meredith |
| | 23 | Meleri Llwyd O'Leary | | 28 | |
| | 30 | | | | |

## PARATOI'R BWRDD CYMUN

| | | | |
|---|---|---|---|
| Ebrill | 9 | Bore | Catrin Heledd Jones a Jayne Jones |
| Mai | 7 | Bore | Eirlys Davies a Margaret Lloyd Evans |

## DARLLENWYR

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Ebrill | 2 | Yr Aelodau | Mai | 7 | Ffion Parsons |
| | 9 | Jayne Woods | | 14 | Y Plant |
| | 16 | Yr Aelodau | | 21 | Tim Hayes |
| | 23 | Miriam Wyrwoll | | 28 | Luned V Thomas |
| | 30 | | | | |

## CYHOEDDWYR

| | | | |
|---|---|---|---|
| Ebrill | Elis Jones | Mai | Philip Jones |

# Trefniadau Pasg yr Ofalaeth

## Croeso i bawb o bob oed



**Sul y Blodau**

***2 Ebrill 2023***

**Oedfa yn y Priordy am 10**
**Oedfa yng Nghana am 2**



**Wythnos Y Pasg**

**Rhyddheir Myfyrdod bob dydd dros ebost a’r cyfryngrau cymdeithasol**

**Iau Cablyd**

***6 Ebrill 2023***

**Oedfa Gymun yn Y Tabernacl, Caerfyrddin am 7**
**gyda’r**
**Parchedig Aled Davies, Chwilog**

**Gwener y Groglith**

***7 Ebrill 2023***

**Oedfa Ddigidiol yn y bore.**
**Oedfa Undebol yn Y Tabernacl am 10.30**
**gyda’r**
**Parchedig Aled Davies, Chwilog**

**Pererindod i ben Bryn Myrddin yn y prynhawn**
**Gadael Allt Fyrddin am 2.30**
**Oedfa ar ben y bryn am 3**
**Te i ddilyn yn Allt Fyrddin (£3.50 y pen)**
**Gwisgwch ‘sgidiau addas.**

**Sul y Pasg**

***9 Ebrill 2023***

**Oedfa Gymun Undebol yn Y Priordy am 10**
**Dathlu’r Pasg yn y Gymuned ym Mancyfelin yn y prynhawn**
**Gorymdaith yn gadael mynedfa Wenallt am 3**
**ac oedfa i ddilyn yn y Capel.**
**Paned a byns y grog.**

# RHWYDWAITH

***EIN*** cofion cynnes at bawb sy'n anhwylus y dyddiau hyn, yn enwedig y rhai sy'n cael neu wedi cael triniaeth yn yr ysbyty a phawb mewn cartrefi gofal neu sy'n gaeth i'w haelwydydd ar hyn o bryd. Dymunwn yn dda i bob un ohonoch dros y Pasg.



Bu Nansi Williams a Gwilym Snelson, ynghyd â Huw Blaney, ar **Heno** ar **S4C** yn sgwrsio ar y soffa gyda Siân Lloyd ac Owain Tudur Jones am eu rôl yn y gyfres deledu **Fferm Fach.**

Cafwyd llawer o hwyl yn Nhalwrn Caerfyrddin yn yr Egin a llongyfarchiadau mawr i'r tri thîm, sef Yr Ysgol Farddol (Y Buddugwyr), Y Priordy a Chwm Gwendraeth am gystadleuaeth agos! Gweler y llun yn y Papur hwn. Diolch i Elinor W Reynolds, Aled Evans, Angharad Wyn a Peter Hughes Griffiths am ein cynrychioli ac am ddarllen gwaith Beti-Wyn yn ei habsenoldeb. Diolch i'r ddau Feuryn, Mererid Hopwood a Tudur Dylan Jones a hefyd i Peter am drefnu'r noson.

Bu Elis James yn ceisio darganfod mwy am yr ymgyrchu dros hawliau'r iaith yn yr ugeinfed ganrif ar **Stori't Iaith** ar **S4C** ac roedd Heledd ap Gwynfor ymysg y rhai a gafodd eu cyfweld.




Dangoswyd y ffilm newydd **Y Sŵn** yn Yr Egin yn ystod y mis. Mae'n adrodd am y frwydr i sefydlu sianel deledu yn y Gymraeg a rhan allweddol Gwynfor Evans ynddi – un o benodau mwyaf lliwgar hanes Cymru. Bu sesiwn Cwestiwn ac Ateb wedi dangos y ffilm ar un noson ac roedd Peter Hughes Griffiths yn aelod o'r Panel. Bu Peter yn gweithio am flynyddoedd lawer gyda Gwynfor Evans, un a ymrwymodd i lwgu i farwolaeth pe na bai llywodraeth y dydd yn cadw at ei addewid i sefydlu sianel Gymraeg.

***A LLONGYFARCHIADAU MAWR*** i Elin Wyn ar gyflawni Ras 10K Bae Caerdydd Brecon Carreg yn llwyddiannus! Ardderchog yn wir!

**Unrhyw newyddion ar gyfer rhifyn Mai i'n Gweinidog neu Alun Charles**

| ATEBION CWIS Y SALMAU | | | |
|---|---|---|---|
| **1** | **ddrwg** | **6** | **gwywo** |
| **2** | **pechaduriaid** | **7** | **drwg** |
| **3** | **Arglwydd** | **8** | **us** |
| **4** | **myfyrio** | **9** | **cyfiawn** |
| **5** | **coeden** | **10** | **difa** |

# Y SULIADUR


| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Ebrill<br>Sul y<br>Blodau | 2 | Bore | Ein Gweinidog | |
| Sul y<br>Pasg | 9 | Bore | Oedfa'r Ofalaeth gyda'n Gweinidog | C |
| | 16 | Bore | Oedfa gyda'n Haelodau | |
| | 23 | Bore | Ein Gweinidog | |
| | 30 | Bore | Ein Gweinidog<br>Capeli Cymraeg y Dref yn ymuno â ni | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Mai | 7 | Bore | Ein Gweinidog | C |
| | 14 | Bore | Cwrdd Plant gyda'n Gweinidog | |
| | 21 | Bore | Ein Gweinidog | |
| | 28 | Bore | Y Parchedig Siân Elin Thomas | |

| CALENDR Y PLANT A'R BOBL IFAINC | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| ✓ Ysgol Sul PIP - Pobl Ifainc y Priordy - Dim Ysgol Sul CP – Cwrdd Plant<br>OD – Oedfa Deulu HT – Hanner Tymor | | | | | | | | |
| Ebrill | | | | | Mai | | | |
| 2 | 9 | 16 | 23 | 30 | 7 | 14 | 21 | 28 |
| - | - | ✓<br>PIP | - | ✓PIP<br>ar<br>Daith | Erw<br>Hir | CP | ✓ | HT |

**Rhyddheir oedfa ddigidol bob Sul**

## DALIER SYLW



**Cofiwch am Apêl mis Ebrill**